Rhestr Wirio ac Adroddiad Archwiliad Iechyd a Diogelwch

| | |
|---|---|
| Safle / Lleoliad | |
| Amser | |
| Dyddiad yr Archwiliad | |
| Pennaeth / Rheolwr Safle | |
| Cydlynydd Iechyd a Diogelwch | |
| Nifer o staff ar adeg yr archwiliad | |
| Math o archwiliad / Cyfyngiad archwiliad | |

| Rheolaeth Iechyd a Diogelwch | Arweiniad | Do / Oes / Ydy | Naddo / Nac oes / Nac ydy | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | | | | |
| A oes gan staff a llywodraethwyr fynediad at y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a pholisïau iechyd a diogelwch perthnasol eraill? | *Dylai pob aelod o staff gael mynediad at y Porth Polisi/meicrosafle.*<br><br>*Dylai polisïau fod ar gael i staff a llywodraethwyr sydd heb fynediad at TG.* | | | |
| A yw'r pob cyflogai a llywodraethwr wedi'i wneud yn ymwybodol o'r polisïau? | *Cadarnhau'r uchod.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pa bryd yr adolygwyd Polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol ddiwethaf? | *Dylid ei adolygu (yn gyffredinol bob blwyddyn neu ar ôl newidiadau sylweddol). Dylid ei lofnodi a'i ddyddio gan Gadeirydd y Llywodraethwyr.* | | | |
| A oes gan yr ysgol bwyllgor iechyd a diogelwch? | | | | |
| A yw llywodraethwyr yn ymwneud â iechyd a diogelwch fel eitem agenda yn eu cyfarfodydd? | | | | |
| A yw iechyd a diogelwch yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd safle/ lleoliad? | *Cyfathrebu materion iechyd a diogelwch â staff*<br><br>*A oes cofnodion?* | | | |
| A oes Cynllun Argyfwng ar waith ar gyfer argyfyngau 'ar y safle'? | | | | |
| A oes gan yr ysgol Gydlynydd Ymweliadau Addysgol (EVC)? | Mae hyfforddiant ar gyfer y rôl hon ar gael gan Simon Lancaster-Jones | | | |
| A yw'r hyfforddiant EVC yn gyfredol? | Dylai staff dderbyn hyfforddiant gloywi bob 5 mlynedd. | | | |
| A oes gan yr ysgol gynllun digwyddiadau critigol ar gyfer | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| argyfyngau ‘oddi ar y safle’? | | | | |
| A yw Gwybodaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg CLEAPSS yn cael ei derbyn yn yr ysgol a’i gwneud ar gael i unrhyw staff perthnasol? www.cleapss.org.uk | *Caiff yr enw defnyddiwr a’r cyfrinair CLEAPSS eu newid bob blwyddyn. Os nad oes gan eich ysgol hyn, cysylltwch â’r tîm iechyd a diogelwch neu CLEAPSS yn uniongyrchol.* | | | |
| A yw pob cyflogai (addysgu a’r sawl nad ydynt yn addysgu) yn derbyn yr wybodaeth berthnasol gan reolaeth ysgol ynglŷn ag iechyd a diogelwch, ac a oes proses i’w hysbysu o newidiadau? H.y. asesiadau risg, system waith ddiogel, etc. | Gall hyn fod mewn cyfarfodydd, ar hysbysfwrdd, mewnrwyd yr ysgol, etc. A oes cofnodion? | | | |
| A oes gweithdrefnau safle penodol ar waith i fynd i’r afael â materion iechyd a diogelwch? | | | | |
| A oes Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos? | *Dylai pob gweithle arddangos y poster mewn lle amlwg yn y gweithle (swyddfa/ ystafell staff) neu fel arall dylent* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *ddarparu copi o'r daflen o'r enw Cyfraith Iechyd a Diogelwch i bob cyflogai.* | | | |
| A yw tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn hygyrch i staff a llywodraethwyr? | | | | |
| Sut mae asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u cyfathrebu i staff? | *Gallai hyn fod mewn cyfarfodydd, ar hysbysfwrdd, mewn cofnodion ffeil ac anwytho. A oes cofnodion?* | | | |
| A oes Asesiad Risg Tân cyfredol? | *Cynhelir asesiadau risg tân bob 5 mlynedd gan Adran Eiddo'r Cyngor a dylent gael eu hadolygu'n flynyddol.* | | | |
| A yw Hysbysiadau Gweithredu Tân yn cael eu harddangos? | *Dylid arddangos Hysbysiadau Gweithredu Tân o amgylch yr adeilad, yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd mewn achos o dân.* | | | |
| A yw enwau a lleoliadau gwaith swyddogion cymorth cyntaf a bocsys cymorth cyntaf wedi'u harddangos? | *Dylid arddangos lleoliad y bocsys ac enwau a lleoliad swyddogion cymorth cyntaf. Dylid hysbysu staff newydd pan gânt eu hanwytho.* | | | |
| Asesiad Risg a Rheolaeth | | | | |
| **A yw asesiadau penodol wedi eu** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **cynnal ac yn gyfredol?** | | | | |
| **Rhestr Wirio Ystafell Ddosbarth – tymhorol neu os yw amgylchiadau'n newid yn arwyddocaol** | *Mae'r rhestr wirio'n rhoi rhestr o faterion iechyd a diogelwch i staff addysgu a chefnogi i'w hystyried mewn lleoliad ystafell ddosbarth cyffredin mewn unrhyw ysgol.* | | | http://www.hse.gov.uk/risk/classroom-checklist.htm |
| **Sylweddau Peryglus (COSHH)** | *Gall hyn gynnwys sylweddau peryglus a ddefnyddir gan lanhawyr.* | | | |
| **Ymweliadau Ysgol** | Dylai ymweliadau ysgol gael asesiad risg trylwyr yn unol ag arweiniad a gynhyrchir gan Simon Lancaster-Jones neu gan yr EVC ar gyfer ymweliadau llai 'rheolaidd'. | | | |
| **Trafod â Llaw** | *Gall hyn gynnwys trin gwrthrychau a phobl.*<br><br>*Os defnyddir teclyn codi, a yw wedi cael archwiliad LOLER yn y 6 mis diwethaf?* | | | |
| **Disgyn o Uchder** | *Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer gweithio o uchder?*<br>*Gall hyn gynnwys silffoedd lefel uwch yn ogystal â gwaith* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *arwyddocaol o uchder.*<br><br>*A yw mannau lle mae risg o ddisgyn o uchder wedi'u hadnabod ac a oes mesurau rheoli ar waith?* | | | |
| **Straen** | *Defnyddio Safonau Rheoli'r HSE.* | | | |
| **Offer Sgrin Arddangos** | *A ystyrir cyflogeion fel 'defnyddwyr'? Os ydynt, a yw gweithfan cyfrifiadur pob cyflogai yn cael eu hasesu?*<br><br>A yw staff yn ymwybodol o'r risgiau o ddefnyddio offer DSE?<br><br>A ydynt wedi ymgymryd â'r cwrs dysgu DSE? | | | |
| **Lle chwarae/iard yr ysgol** | *I gynnwys lefelau goruchwylio, diogelwch, nodweddion yr ardal chwarae, trefn archwilio, tywydd garw* | | | |
| **Symudiad Traffig ar y Safle** | *Dylid gwahanu cerddwyr a thraffig bob amser.*<br><br>*Trefniadau diogel ac addas ar ddechrau/diwedd y diwrnod ysgol yn caniatáu rhieni/gofalwyr i* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *olwng/casglu eu plant*<br><br>*Cyfyngiadau cyflymder i gerbydau* | | | |
| **Cwricwlwm** | *A yw gwersi'n unol ag arweiniad (yn arbennig gwyddoniaeth, AG/ chwaraeon a thechnoleg)?*<br><br>*Mae arweiniad AG/ chwaraeon ar gael gan yr Association for PE.*<br><br>*Dylai arweiniad CLEAPSS i ysgolion fod ar gael i gynorthwyo gyda nifer o asesiadau generig ar gyfer gwyddoniaeth/DT.* | | | |
| **Peryglon Slipio a Baglu** | *Dylid adnabod peryglon slipio a baglu ac ystyried trefniadau monitro:*<br><br>• *A yw'r llawr mewnol mewn cyflwr da?*<br>• *A oes unrhyw newidiadau yn lefel neu fath y llawr sydd angen eu hamlygu?*<br>• *A yw'r eiliau rhwng desgiau'n cael eu cadw'n glir?*<br>• *A yw lidiau/ceblau* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *sy'n llusgo yn cael eu hatal lle bynnag y bo'n bosibl?*<br>• *A yw goleuadau'n ddigon llachar i ganiatáu mynediad ac allanfa glir?*<br>• *A oes gweithdrefnau ar waith i ddelio â gollyngiadau, e.e. dŵr, gwaed o friwiau?*<br>• *A yw stepiau neu rampiau mynediad yn cael eu cynnal yn briodol?*<br>• *A yw grisiau neu rampiau mynediad â chanllawiau?* | | | |
| **Gweithio ar eich Pen eich Hun / Trais ac Ymosodiad (WRV)** | *A yw pob gweithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun wedi'i adnabod? Ni ddylai gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain fod mewn unrhyw faint mwy o risg na gweithwyr cyffredin. A yw pob risg potensial o WRV wedi eu hasesu – a oes mesurau rheoli wedi'u hadnabod?* | | | |
| Diogelwch Safle | Gweler yr adran isod | | | |
| Arwynebau Poeth | A yw arwynebau poeth gwresogyddion ac ati wedi'u diogelu lle bo'n | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bosibl? | | | |
| A oes proses ar waith sy'n monitro/sicrhau yr ymgymerir ag asesiadau risg a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol neu'n dilyn newidiadau arwyddocaol? | *Beth yw'r trefniadau rheoli ar gyfer asesu'r risgiau ac adolygu asesiadau risg?* | | | |
| **Diogelwch safle** | | | | |
| **Perimedr** | *A yw perimedr yr ysgol yn ddiogel? Pa fesurau a gymerir i liniaru unrhyw risgiau yr adnabyddir? A yw'n ymarferol cael ffens perimedr? Pa reolaethau rheoli sydd ar waith y tu hwnt i'r rheolaethau ffisegol?* | | | |
| **Adeilad yr ysgol** | *A ellir diogelu adeilad yr ysgol os yw'r perimedr wedi'i gyfaddawdu?* | | | |
| **Mynediad/gadael** | *Sut mae'r ysgol yn atal mynediad/gadael yn ddiogel?* | | | |
| **Dechrau/diwedd y dydd** | *Beth yw'r trefniadau i gadw plant yn ddiogel wrth iddynt gyrraedd/gadael y safle?* | | | |
| **Gatiau ysgol** | *A yw gatiau ysgolion yn cael eu cloi'n gyson ar amseroedd priodol?* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cae chwarae/iard ysgol** | *Beth yw'r trefniadau diogelwch yn y cae chwarae/iard ysgol?* | | | |
| **Ymwelwyr/gosodiadau ar safle'r ysgol** | *Beth yw'r trefniadau i sicrhau bod dysgwyr yn aros yn ddiogel os yw llogwyr ar yr un safle? Os oes oedolion ar y safle i gael mynediad at gyd-ddarparwyr, e.e., Dechrau'n Deg?* | | | |
| **Trefniadau cloi** | *A oes gan yr ysgol weithdrefn gloi?*<br><br>*A yw staff yn ymwybodol o'r weithdrefn hon?* | | | |

**Hyfforddiant –** *Dylid rhoi hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol lle bo angen. Gall fod yn hyfforddiant pwnc-benodol ffurfiol a hefyd hyfforddiant mewn systemau a gweithdrefnau lleol.*

| Argymhellir bod aelod o'r uwch dîm rheoli'n cwblhau hyfforddiant 'IOSH Rheoli'n Ddiogel' neu gyfystyr. | **Do/Naddo**<br><br>**Do** | **Sylwadau** | Hyfforddiant Marsial Tân | **Do / Naddo**<br><br>Naddo | **Sylwadau**<br><br>**Erbyn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Anwythiad Iechyd a Diogelwch | Do | | Trafod â Llaw | | |
| Gweithio o Uchder | Naddo | | Hyfforddiant penodol ar gyfer teclynnau / offer / cyfarpar (PUWER) | | |
| Rheolaeth Safle Tân-ddiogel | Do | | Cymorth Cyntaf | | |
| Ymwybyddiaeth Legionella | Naddo | | Ymwybyddiaeth Asbestos | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Cydlynydd Ymweliadau Addysgol | | | Goruchwylydd Diogelwch Ymbelydredd Gwyddoniaeth Uwchradd (CLEAPSS) | | |

**Damweiniau** *Mae canllawiau a ffurflenni llawn ar adrodd damweiniau i'w gweld ar wefan y Cyngor. Mae adrodd cywir ac prydlon i'r tîm Iechyd a Diogelwch yn hanfodol er mwyn adrodd am ddamweiniau priodol i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch fel sy'n ofynnol dan y Reporting of Injuries Diseases and Dangerous Occurrences Regulations (RIDDOR).*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes unigolyn enwebedig i adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau? | *Dylai unigolion enwebedig ymgymryd ag adrodd ar ddigwyddiad i'r tîm Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau RIDDOR.* | OES / YDYNT | NAC OES/ NAD YDYNT | Sylwadau |
| | | | | |
| A yw damweiniau'n cael eu harchwilio i adnabod gweithredoedd sydd eu hangen i'w hatal rhag digwydd eto? | *Dylai rheolaeth safle archwilio digwyddiadau a damweiniau i adnabod gwelliant posibl i'w hosgoi rhag digwydd eto.* | | | |
| A yw staff yn cael cyfarwyddyd ar y camau i'w cymryd yn dilyn damwain iddyn nhw neu i ddisgybl yn eu gofal? | *Dylai hyn gynnwys cwblhau'r ffurflenni cywir, darpariaeth cymorth cyntaf/ cynhorthwy brys ac adrodd i reolaeth.* | | | |
| A yw ystadegau damwain wedi cael eu rhannu â'r Corff Llywodraethol? | *Mae'r data hwn yn darparu'r nifer a'r mathau o ddamweiniau mewn ysgol.* | | | |

**Cymorth Cyntaf –** *Gellir dod o hyd i arweiniad ar ddarpariaeth cymorth cyntaf ar wefan y Cyngor. Cyfeiriwch hefyd at Reoliad Cymorth Cyntaf 1981 (fel y'i diwygir)*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes niferoedd digonol o swyddogion cymorth cyntaf | *Dylid pennu niferoedd drwy asesiad yn ystyried materion megis* | OES / | NAC OES / NAD | Sylwadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hyfforddedig ar gael bob amser? | *niferoedd staff, cynllun yr adeilad, absenoldeb salwch/gwyliau, gweithgareddau risg uwch* | YDY | YDY | |
| | | | | |
| A yw darpariaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod tystysgrifau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith yn cael eu hadnewyddu bob 3 blynedd? | *Dylid trefnu hyfforddiant adnewyddu mewn da bryd (hyd at 3 mis) cyn i'r dystysgrif bresennol ddod i ben.* | | | |
| A oes staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf ar gael ar y safle ac ar ymweliadau? | *Bydd hyn yn ran o'r asesiad risg sy'n berthnasol ar gyfer yr ymweliad unigol.* | | | |
| **Adeilad –** *Dylid ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r adeilad a'u recordio er mwyn adnabod/monitro dirywiad yng nghyflwr, adnabod unrhyw amodau peryglus a gwirio am fandaliaeth. Dylai archwiliadau hefyd fonitro am achosion tebygol o slipio a baglu, e.e. eitemau wedi'u gadael ar stepiau neu lwybrau traffig, mwsogl yn tyfu, etc.* | | | | |
| A ymgymerir ag archwiliad dyddiol/cyfnodol cynllunedig? | *Dylid ymgymryd â hwn yn ddyddiol i sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr diogel cyn ei ddefnyddio a dylid chwilio am wydr neu ffenestri wedi torri, eitemau ar yr iard chwarae, tystiolaeth o ddefnydd cyffuriau a sicrhau bod pob llwybr argyfwng ar gael.* | | | |
| A ymgymerir ag 'Archwiliad Adeilad Trylwyr' cerdded o gwmpas gyda/gan aelod o'r Corff Llywodraethol a'i gofnodi? | *Dylai hwn edrych ar gyflwr yr adeilad i fonitro unrhyw ddirywiad/diffygion.* | | | |
| A ymgymerir ag archwiliad ffurfiol o offer campfa gan unigolyn cymwys? | *Archwiliad blynyddol yn ofynnol.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ymgymerir ag archwiliad ffurfiol o offer chwarae allanol gan unigolyn cymwys? | *Archwiliad blynyddol yn ofynnol.* | | | |
| A ymgymerir ag archwiliadau blynyddol ffurfiol o offer / peirianneg DT gan unigolyn cymwys? | *Yn ogystal ag archwiliadau blynyddol ffurfiol, dylid llunio amserlen briodol o wiriadau interim (yn ddibynnol ar y risg a geir gan yr offer a pha mor aml y caiff ei ddefnyddio)* | | | |
| A oes system ar waith i annog staff i adrodd ar ddiffygion er mwyn galluogi i waith adferol gael ei drefnu? | *Dylid cadw cofnod o adroddiadau yn ogystal â chydnabyddiaeth bod gwaith adfer wedi ei drefnu/cwblhau* | | | |
| A ymgymerir ag archwiliadau o ysgolion (*ladders*), ysgolion step ac unrhyw offer mynediad arall? | *Gellir ymgymryd â'r archwiliadau hyn gan rhywun mewnol sydd wedi cwblhau hyfforddiant gweithio o uchder* | | | |
| A oes risgiau ynghlwm â chael mynediad at fannau 'ar uchder'? | *Gall y rhain fod yn ymylon heb eu hamddiffyn, adeiladau ag arwynebau to hygyrch.* | | | |
| A oed hysbysiadau 'Rhybudd – To Bregus' yn cael eu harddangos ar yr adeilad? | *Dylid arddangos y rhain ar adeiladau sydd ag arwynebau to hygyrch sy'n cynnwys goleuadau to, asbestos a deunydd brau arall.* | | | |
| Gwydriad | *A oes archwiliad cychwynnol o'r adeilad wedi'i wneud i adnabod meysydd lle dylai gwydriad diogelwch fod mewn lle?* | | | |
| Adeiladau Symudol | *Gan fod adeiladau symudol wedi'u dylunio i fod yn strwythurau dros dro, dylent gael eu gwirio'n flynyddol am eu sefydlogrwydd strwythurol.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r safle mewn ardal sydd wedi'i heffeithio gan radon? | *Efallai y bydd gan y Gwasanaethau Eiddo gofnod o Asesiad Radon* | | | |
| Gweithfan (awyriad a gwresogi) | *A oes gan ystafelloedd awyriad naturiol?*<br><br>*A ellir cynnal tymheredd ystafell rhesymol?*<br><br>*A oes mesurau ar waith, er enghraifft bleindiau, i amddiffyn rhag disgleirio a gwres yr haul?*<br><br>*A yw monitro CO2 yn digwydd?* | | | |
| Rheoli Haint | *Hylendid ac ymarfer personol, yn benodol golchi dwylo a chynnal amgylchedd glân* | | | |
| Arwynebau Poeth / Sgaldio | *A ddarperir gorchuddion gwresogydd lle bo angen?*<br><br>*A yw tymheredd y dŵr poeth ar bwynt defnydd yn cael ei reoli fel nad yw'n achosi risg o sgaldio i ddefnyddwyr? E.e. drwy ddefnydd falfiau cymysgu thermostatig* | | | |
| Dŵr Yfed | *A ddarperir cyfleusterau dŵr yfed addas?*<br><br>*A yw cyfleusterau dŵr yfed sy'n addas i'w hyfed yn cael eu marcio'n glir i nodi hynny?*<br><br>*A ydynt yn hygyrch bob amser* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *pan fo'n adeilad yn cael ei ddefnyddio?*<br><br>*A ydynt mewn ardal ar wahân i'r cyfleusterau toiled?* | | | |
| Gweinyddu Meddyginiaeth | *Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod ysgolion yn datblygu polisi ar gyfer cefnogi disgyblion â chyflyrau meddygol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac sy'n hygyrch i rieni a staff yr ysgol. A yw'r polisi'n nodi:*<br>• *Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi'n briodol?*<br>• *Ymrwymiad bod unrhyw staff perthnasol am gael eu hysbysu o gyflwr y plentyn?*<br>• *Trefniadau wrth gefn ar gyfer absenoldeb staff neu drosiant staff i sicrhau bod rhywun ar gael bob amser?*<br>• *Briffio ar gyfer athrawon llanw?*<br>• *Asesiadau risg ar gyfer ymweliadau ysgol, gwyliau a gweithgareddau ysgol eraill y tu allan i'r amserlen arferol?*<br>• *Monitro cynlluniau gofal iechyd unigol?* | | | |
| Mamau Newydd a Beichiog | *Dylid cwblhau asesiad risg cyffredinol i'r sawl sydd o oed i allu cael plant.*<br><br>*Dylid cynnal asesiad risg penodol ar gyfer yr unigolion sy'n eich* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *hysbysu o'u beichiogrwydd neu sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn genedigaeth babi. Gellir contractio gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor ar gyfer cyngor meddygol.* | | | |
| A oes cytundebau gosodiadau ffurfiol ar waith lle mae'r adeilad (neu ran o'r adeilad) yn cael ei osod i eraill? | *Dylai'r cytundeb gosodiadau nodi trefniadau diogelwch megis mwyafsymiau niferoedd, trefniadau argyfwng, trefniadau adrodd ar ddiffygion, diogelwch ac unrhyw wybodaeth arall i sicrhau bod y sawl sy'n llogi'n cydymffurfio â gofynion diogelwch cyfredol yr ysgol.* | | | |
| A yw'r ysgol wedi gwneud addasiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig? A oes teclyn codi yn bresennol? (Pa bryd oedd ei archwiliad LOLER a gofnodwyd ddiwethaf?) | *Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn i bob ysgol baratoi a gweithredu strategaeth hygyrchedd i wella amgylchedd ffisegol yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig (AAA). Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o'u hanghenion iechyd a diogelwch penodol ar adeilad yr ysgol a sut y gellir cwrdd â'r rhain.* | | | |
| **Larwm Tân a Chofrestr Tân** | | | | |
| A yw'r larwm tân yn cael ei brofi bob wythnos a'i gofnodi yn y Llyfr Log Tân? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw gwacâd o'r adeilad yn cael ei gynnal bob tymor a'i gofnodi yn y Gofrestr Tân, ac a yw'n cynnwys trefniadau ar gyfer unrhyw oedolion neu blant bregus? | *Dylid llunio Cynlluniau Gwacau Argyfwng Personol ar gyfer unigolion bregus/unigolion ag anableddau* | | | |
| Os oes drysau allanfa yn y dosbarth, a ydynt:<br>• Heb rwystrau;<br>• Yn cael eu cadw heb eu cloi; ac<br>• Yn hawdd i'w hagor o'r tu mewn? | *Noder: ystafelloedd dosbarth sydd â drysau tân ynddynt* | | | |
| A yw'r larwm tân, diffoddwyr tân a goleuadau argyfwng wedi eu gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf? | *Lle'r adnabyddir, a yw staff wedi'u hyfforddi mewn defnydd o ddiffoddwyr tân?* | | | |
| A yw'r Llyfr Log Tân wedi'i gwblhau ac yn gyfredol? | | | | |
| A oes copi o'r Cynllun Rheoli Tân? | | | | |
| **Asbestos** | | | | |
| A yw Cofrestr Asbestos yr adeilad yn hygyrch i gadarnhau'r lleoliad y gwyddys bod asbestos? | *Dylai hon fod yn hygyrch ar gyfer ymgynghoriad er mwyn sefydlu lleoliad unrhyw asbestos yn yr adeilad. Cysylltwch ag Adran Eiddo'r Cyngor am faterion yn ymwneud â'r gofrestr a materion eraill sy'n ymwneud â rheoli asbestos* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| A yw staff perthnasol yn ymwybodol o fodolaeth/lleoliad unrhyw asbestos? | *Dylid gwneud staff yn ymwybodol o leoliad unrhyw asbestos, y camau i'w cymryd os oes aflonyddwch, a hefyd o'r gofyniad i beidio ag aflonyddu unrhyw ffabrig yr adeilad mewn unrhyw ffordd tan y cadarnheir nad oes asbestos* | | | |
| A yw pob contractwr yn cael gwybod am fodolaeth/lleoliad unrhyw asbestos cyn dechrau unrhyw waith? | *Dylai gweithdrefnau sicrhau bod contractwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o leoliad unrhyw asbestos cyn i waith ddechrau. Dylid derbyn llofnodion i wirio bod contractwyr wedi cael gweld y Gofrestr Asbestos ac yn ymwybodol o'i lleoliad.* | | | |
| **Contractwyr** | | | | |
| A yw'r ysgol yn cysylltu a'r Adran Eiddo CYN cychwyn ar unrhyw waith ar y safle? | *Dylid hysbysu'r Adran Eiddo O LEIAF 14 diwrnod cyn dechrau gwaith sylweddol* | | | |
| A ydych yn cadarnhau cymhwysedd contractwyr cyn eu penodi? | *Dylid cysylltu contractwyr â'r Safety Schemes in Procurement (SSIP), e.e. CHAS* | | | |
| A yw materion iechyd a diogelwch yn cael eu hadnabod a'u cofnodi yn y Cyfarfod Cyn Gwaith? | *Dylai'r rhain gynnwys materion ar gyfer y safle a'r contractwr. Gweler y dudalen Asesiad Risg.* | | | |
| **Trydanol / Mecanyddol –** Cysylltwch ag Adran Eiddo'r Cyngor am gyngor ac arweiniad ar y materion hyn. Mae gwybodaeth ychwanegol hefyd ar gael ar wefan yr ICO: http://www.hse.gov.uk/electricity/maintenance/safety.htm | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw pob teclyn trydanol symudol wedi cael prawf PAT? | *Mae teclynnau trydanol symudol yn gofyn bod trefn brofi archwilio ar waith gan unigolyn cymwys.* | | | |
| A yw pob gosodiad trydanol ysgol-sefydlog wedi'i brofi yn y 5 mlynedd ddiwethaf? | *Mae system drydanol yr adeilad yn gofyn am archwiliad ffurfiol.* | | | |
| A yw archwiliad gweledol yn cael ei gynnal o declynnau trydanol cyn eu defnyddio? | *Dylid annog staff i archwilio teclynnau electronig yn weledol am arwyddion o ddifrod cyn eu defnyddio* | | | |
| A oes unrhyw offer trydanol wedi'i ddifrodi wedi'i dynnu o'r gwasanaeth neu wedi ei ddisodli? | | | | |
| A yw teclynnau nwy yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan beiriannydd Gas Safe? | *Cysylltwch ag Adran Eiddo'r Cyngor am arweiniad pellach*<br><br>*Dylid cynnal gwiriadau pob 12 mis.* | | | |
| Olew – A yw tanciau, byndiau a gwaith peipiau wedi'u gwirio'n rheolaidd am arwyddion o ddifrod?<br><br>A yw teclynnau olew yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan unigolyn cymwys (*o leiaf bob blwyddyn*)? | *Dylid gwneud gwiriadau pob wythnos lle mae'r swm a storir uwchben 200litr, y tu allan ac uwchben y ddaear.* | | | |
| **Legionella –** *Cysylltwch ag Adran Eiddo'r Cyngor am gyngor ac arweiniad ar y materion hyn. Mae gwybodaeth ychwanegol hefyd ar gael ar wefan HSE: http://www.hse.gov.uk/legionnaires/index.htm* | | | | |
| A yw Asesiad Risg Legionella wedi'i gynnal ar y safle? | *Asesiadau risg legionella wedi'u trefnu drwy'r Gwasanaeth Eiddo.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| A oes copi o’r Cynllun Rheoli Legionella ar y safle? | | | | |
| A yw’r Llyfr Log Legionella wedi’i gwblhau ac yn gyfredol? | *Mae’n rhaid fflysio unrhyw allfeydd dŵr na ddefnyddir yn aml bob wythnos.* | | | |
| A yw’r gwaith ataliol angenrheidiol wedi’i gynnal yn unol ag argymhellion yr Asesiad Risg Legionella? | *Trefnir y gwaith hwn gan amlaf gan y Gwasanaeth Eiddo.* | | | |
| **Rheolaethau COVID19** | | | | |
| A oes asesiad risg Covid19 ar gyfer y safle ac asesiadau penodol ar gyfer gweithgareddau? | | | | |
| A yw rheolaethau a adnabyddir yn y risg yn cael eu cynnal? | | | | |

<u>Materion Pellach / Toriadau Posibl wedi’u Hadnabod</u>

| Tystiolaeth wedi’i Chyflwyno | Perygl | Sylwad | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Sylwadau:-**

**FE'CH CYNGHORIR I RANNU'R ADRODDIAD HWN Â PHWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y CORFF LLYWODRAETHOL.**

Appendix 1




- Mae Radon yn nwy ymbelydrol naturiol sy'n mynd i mewn i adeiladau o'r ddaear. Ni allwch ei weld, ei glywed, ei deimlo na'i flasu.
- Radon dan do yw'r ffynhonnell fwyaf o amlygiad i ymbelydredd i'r cyhoedd. Mae gwerthoedd radon uchel yn cynyddu'r risg o ganser yr ysgyfaint mewn adeiladau lle rydyn ni'n byw ac yn gweithio.
- Mae radon yng nghartrefi yn y DU yn achosi dros 1000 o achosion o ganser yr ysgyfaint bob blwyddyn, dyma ail achos pennaf canser yr ysgyfaint ar ôl ysmygu.
- Mae Radon yn amrywio rhwng adeiladau, rhwng dau dŷ wrth ymyl ei gilydd a hyd yn oed rhwng dau gartref yn yr un teras.
- Mae gwerthoedd uchel yn fwy cyffredin mewn rhai ardaloedd ar Ynys Môn. Y tywyllaf yw'r lliw ar y map, y mwyaf

Mae'r Health Protection Agency (HPA) yn cynnal mesuriadau radon. Gellir archebu pecyn canfodydd